



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

**2001 Rhif 4006 (Cy.332)**

**2001 No. 4006 (W.332)**

## **TAI, CYMRU**

## **HOUSING, WALES**

**Rheoliadau Grantiau Adnewyddu  
Tai (Ffurflenni a Manylion a  
Ragnodir) (Diwygiad Rhif 2)  
(Cymru) 2001**

**The Housing Renewal Grants  
(Prescribed Forms and Particulars)  
(Amendment No.2) (Wales)  
Regulations 2001**

### **NODYN ESBONIADOL**

### **EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r ffurflenni (dwyieithog) sydd i'w defnyddio gan berchenfeddianwyr a thenantiaid wrth wneud cais am grantiau adnewyddu tai o dan Bennod I o Ran I o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996.

These Regulations amend the (bilingual) forms to be used by owner-occupiers and tenants when applying for housing renewal grants under Chapter I of Part I of the Housing Grants, Construction and Regeneration Act 1996.

Mae'r ffurflen Gymraeg sy'n cael ei diwygio wedi'i nodi yn yr Atodlen i Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion a Ragnodir) (Ffurflen a Manylion Cymraeg) 1998 (O.S. 1998/1113 fel y'i diwygiwyd).

The Welsh language form amended is set out in the Schedule to the Housing Renewal Grants (Prescribed Form and Particulars) (Welsh Form and Particulars) Regulations 1998 (S.I. 1998/1113 as amended).

Mae'r ffurflen Saesneg sy'n cael ei diwygio wedi'i nodi yn yr Atodlen i Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion a Ragnodir) 1996 (O.S. 1996/2891 fel y'i diwygiwyd).

The English language form amended is set out in the Schedule to the Housing Renewal Grants (Prescribed Form and Particulars) Regulations 1996 (S.I. 1996/2891 as amended).

Mae'r diwygiadau yn dilyn y diwygiadau sy'n cael eu gwneud gan Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygiad Rhif 2) (Cymru) 2001 (O.S. 2001/4007(Cy.333)) i Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai 1996 (O.S. 1996/2890) ac maent yn ymwneud ag unrhyw daliadau o ymddiriedolaeth vCJD a delir i geisydd.

The amendments are consequential on those being made by the Housing Renewal Grants (Amendment No.2) (Wales) Regulations 2001 (S.I. 2001/4007(W.333)) to the Housing Renewal Grants Regulations 1996 (S.I. 1996/2890) and relate to any vCJD trust payments made to an applicant.

Mae'r diwygiadau'n ymwneud â thaliadau arbennig a delir i ddiodefswyr amrywidyn clefyd Creutzfeldt Jakob a'u teuluoedd agosaf.

The amendments relate to special payments made to sufferers of variant Creutzfeldt-Jakob disease and their immediate families.

**2001 Rhif 4006 (Cy.332)****2001 No. 4006 (W.332)****TAI, CYMRU****HOUSING, WALES****Rheoliadau Grantiau Adnewyddu  
Tai (Ffurflenni a Manylion a  
Ragnodir) (Diwygiad Rhif 2)  
(Cymru) 2001****The Housing Renewal Grants  
(Prescribed Forms and Particulars)  
(Amendment No.2) (Wales)  
Regulations 2001***Wedi'u gwneud* 13 Rhagfyr 2001*Made* 13th December 2001*Yn dod i rym* 11 Ionawr 2002*Coming into force* 11th January 2002

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 2(2) a 4(a) a 146(1) a (2) o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996(b) fel y'i hystynnwyd gan adran 26(3) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(c) yn gwneud y Rheoliadau Canlynol:

The National Assembly for Wales in exercise of the powers conferred upon it by sections 2(2) and (4)(a) and 146(1) and (2) of the Housing Grants, Construction and Regeneration Act 1996(b) as extended by section 26(3) of the Welsh Language Act 1993(c) makes the following Regulations:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso****Name, commencement and application**

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflenni a Manylion a Ragnodir) (Diwygiad Rhif 2) (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 11 Ionawr 2002.

1.-(1) These Regulations are called the Housing Renewal Grants (Prescribed Forms and Particulars) (Amendment No.2) (Wales) Regulations 2001 and shall come into force on 11th January 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig ac ni fyddant yn effeithiol mewn perthynas â cheisiadau am grant a wnaed cyn y dyddiad y daeth y Rheoliadau hyn i rym.

(2) These Regulations apply to Wales only and shall not have effect in relation to applications for grant made before the date on which these Regulations come into force.

**Diwygio****Amendments**

2. Yn y ffurflen (Saesneg) a nodir yn yr Atodlen i Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion a Ragnodir) 1996(ch):

2. In the (English language) form set out in the Schedule to the Housing Renewal Grants (Prescribed Form and Particulars) Regulations 1996(d):

(a) ar ôl cwestiwn 3.34A(d) mewnosodwch -

(a) after question 3.34A(e) insert-

**"3.34B** Please give details of any vCJD trust payment made to you, your partner or a member of your family or any payment made to you, your partner or a member of your family by another person or from

**"3.34B** Please give details of any vCJD trust payment made to you, your partner or a member of your family or any payment made to you, your partner or a member of your family by another person or from

(a) Gweler y diffiniad o "prescribed" yn adran 101.

(a) See the definition of "prescribed" in section 101.

(b) 1996 p.53; gweler erthygl 2 o ac Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(b) 1996 c.53; see article 2 of and Schedule 1 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) 1993 p.38

(c) 1993 c.38.

(ch) O.S. 1996/2891, a ddiwygiwyd gan O.S. 1996/3119, 1997/978, 1998/809, 1996/1607, 1999/3470 (Cy.56), 2000/1735(Cy.119) a 2001/2071(Cy.143).

(d) S.I. 1996/2891, amended by S.I. 1996/3119, 1997/978, 1998/809, 1999/1607, 1999/3470(W.56), 2000/1735(W.119) and 2001/2071(W.143).

(d) Mewnosodwyd cwestiwn 3.34A gan O.S.2001/2071(Cy.143)

(e) Question 3.34A was inserted by S.I. 2001/2071(W.143)

another person's estate which is made from a vCJD trust payment received by that other person. **Note 90E**;

(b) ar ôl nodyn 90D, mewnosodwch -

**"90E.** A vCJD trust payment is a payment made, from trusts set up by the Department of Health, to those who contracted variant Creutzfeldt-Jakob disease (vCJD) and their immediate families.

For the purpose of deciding whether someone is a member of your family, "family" means:

- (a) a married or unmarried couple;
- (b) a married or unmarried couple and a member of the same household for whom one of them is or both are responsible and who is a child or a young person;
- (c) a person who is not a member of a married or unmarried couple and a member of the same household for whom that person is responsible and who is a child or young person.

A payment made to the victim of vCJD or the victim's partner or surviving partner is disregarded for that person's lifetime.

A payment made to the parent of a vCJD victim, regardless of the age of the victim, or to a person who is or was acting in the place of a parent of a dependant child victim, is disregarded for 2 years from the date the payment was made to them.

Payments made to dependant children or young persons are disregarded for the period from the date of payment until the day before they leave full time education or the day before their 19th birthday or for 2 years from the date of payment, whichever is the latest date."

**3.** Yn y ffurflen (Gymraeg) a nodir yn yr Atodlen i Reoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion a Ragnodir) (Ffurflen a Manylion Cymraeg) 1998(a):

(a) ar ôl cwestiwn 3.34A mewnosodwch-

**"3.34B** Rhowch fanylion unrhyw daliad o'r ymddiriedolaeth vCJD sydd wedi'i dalu i chi, i'ch partner neu i aelod o'ch teulu neu fanylion unrhyw daliad sydd wedi'i dalu i chi, i'ch partner neu i aelod o'ch teulu gan berson arall neu o ystad person arall ac sydd wedi'i dalu o daliad o'r ymddiriedolaeth vCJD a gafodd y person arall hwnnw. **Nodyn 90E**";

(b) yn dilyn nodyn 90D mewnosodwch -

**"90E** Taliad o'r ymddiriedolaeth vCJD yw taliad sy'n cael ei dalu, o ymddiriedolaethau sydd wedi'u sefydlu gan yr Adran Iechyd, i'r rhai a gafodd amrywiolyn clefyd Creutzfeldt-Jakob (vCJD) a'u teuluoedd agos.

Er mwyn penderfynu a yw rhywun yn aelod o'ch teulu, ystyr "teulu" yw:

(a) Amnewidiwyd O.S. 1998/1113 gan O.S. 1999/2316, 1999/3470(Cy.56) 2000/1735(Cy.119) a 2001/2071(Cy.143)

another person's estate which is made from a vCJD trust payment received by that other person. **Note 90E**;

(b) after note 90D, insert-

**"90E.** A vCJD trust payment is a payment made, from trusts set up by the Department of Health, to those who contracted variant Creutzfeldt-Jakob disease (vCJD) and their immediate families.

For the purpose of deciding whether someone is a member of your family, "family" means:

- (a) a married or unmarried couple;
- (b) a married or unmarried couple and a member of the same household for whom one of them is or both are responsible and who is a child or a young person;
- (c) a person who is not a member of a married or unmarried couple and a member of the same household for whom that person is responsible and who is a child or young person.

A payment made to the victim of vCJD or the victim's partner or surviving partner is disregarded for that person's lifetime.

A payment made to the parent of a vCJD victim, regardless of the age of the victim, or to a person who is or was acting in the place of a parent of a dependant child victim, is disregarded for 2 years from the date the payment was made to them.

Payments made to dependant children or young persons are disregarded for the period from the date of payment until the day before they leave full time education or the day before their 19th birthday or for 2 years from the date of payment, whichever is the latest date."

**3.** In the (Welsh language) form set out in the Schedule to the Housing Renewal Grants (Prescribed Form and Particulars) (Welsh Form and Particulars) Regulations 1998(a):

(a) after question 3.34A insert-

**"3.34B** Rhowch fanylion unrhyw daliad o'r ymddiriedolaeth vCJD sydd wedi'i dalu i chi, i'ch partner neu i aelod o'ch teulu neu fanylion unrhyw daliad sydd wedi'i dalu i chi, i'ch partner neu i aelod o'ch teulu gan berson arall neu o ystad person arall ac sydd wedi'i dalu o daliad o'r ymddiriedolaeth vCJD a gafodd y person arall hwnnw. **Nodyn 90E**";

(b) after note 90D insert-

**"90E** Taliad o'r ymddiriedolaeth vCJD yw taliad sy'n cael ei dalu, o ymddiriedolaethau sydd wedi'u sefydlu gan yr Adran Iechyd, i'r rhai a gafodd amrywiolyn clefyd Creutzfeldt-Jakob (vCJD) a'u teuluoedd agos.

Er mwyn penderfynu a yw rhywun yn aelod o'ch teulu, ystyr "teulu" yw:

(a) S.I. 1998/1113 as amended by S.I. 1999/2316, 1999/3470(W.56) 2000/1735(W.119) and 2001/2071(W.143)

- (a) pâr priod neu bâr dibriod;
- (b) pâr priod neu bâr dibriod ac aelod o'r un aelwyd y mae un ohonynt neu'r ddau ohonynt yn gyfrifol amdano ac sy'n blentyn neu'n berson ifanc;
- (c) person nad yw'n aelod o bâr priod neu bâr dibriod ac aelod o'r un aelwyd y mae'r person hwnnw yn gyfrifol amdano ac sy'n blentyn neu'n berson ifanc.

Mae taliad sydd wedi'i dalu i ddiodefwr vCJD neu i bartner y diodefwr neu i bartner sydd wedi'i oroesi yn cael ei anwybyddu drwy gydol oes y person hwnnw.

Mae taliad sydd wedi'i dalu i riant diodefwr vCJD, ni waeth beth fo oedran y diodefwr, neu i berson sydd neu a oedd yn gweithredu yn lle rhiant i blentyn dibynnol sy'n ddiodefwr, yn cael ei anwybyddu am 2 flynedd o'r dyddiad y cafodd y taliad ei dalu iddynt.

Mae taliadau sydd wedi'u talu i blant neu bersonau ifanc dibynnol yn cael eu hanwybyddu drwy gydol y cyfnod o ddyddiad y taliad tan y diwrnod cyn iddynt ymadael ag addysg amser-llawn neu'r diwrnod cyn eu pen-blwydd yn 19 oed neu am 2 flynedd o ddyddiad y taliad, p'un bynnag yw'r dyddiad olaf."

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a)

13 Rhagfyr 2001

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cendlaethol

- (a) pâr priod neu bâr dibriod;
- (b) pâr priod neu bâr dibriod ac aelod o'r un aelwyd y mae un ohonynt neu'r ddau ohonynt yn gyfrifol amdano ac sy'n blentyn neu'n berson ifanc;
- (c) person nad yw'n aelod o bâr priod neu bâr dibriod ac sy'n aelod o'r un aelwyd y mae'r person hwnnw yn gyfrifol amdano ac sy'n blentyn neu'n berson ifanc.

Mae taliad sydd wedi'i dalu i ddiodefwr vCJD neu i bartner y diodefwr neu i bartner sydd wedi'i oroesi yn cael ei anwybyddu drwy gydol oes y person hwnnw.

Mae taliad sydd wedi'i dalu i riant diodefwr vCJD, ni waeth beth fo oedran y diodefwr, neu i berson sydd neu a oedd yn gweithredu yn lle rhiant i blentyn dibynnol sy'n ddiodefwr, yn cael ei anwybyddu am 2 flynedd o'r dyddiad y cafodd y taliad ei dalu iddynt.

Mae taliadau sydd wedi'u talu i blant neu bersonau ifanc dibynnol yn cael eu hanwybyddu drwy gydol y cyfnod o ddyddiad y taliad tan y diwrnod cyn iddynt ymadael ag addysg amser-llawn neu'r diwrnod cyn eu pen-blwydd yn 19 oed neu am 2 flynedd o ddyddiad y taliad, p'un bynnag yw'r dyddiad olaf."

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a)

13th December 2001

The Presiding Officer of the National Assembly

---

(a) 1998 p.38

---

(a) 1998 c.38

© Hawlfraint y Goron 2001

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2001


Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£1.75**

W399/01/02

ON

ISBN 0-11-090397-8



9 780110 903972